

Cronfa Bensiwn Dyfed

Llythyr Newyddion Blynnyddol

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Rhifyn 26, 2025

Cynnwys

Buddsoddiadau'r Gronfa	2
Buddsoddiadau Adnewyddadwy yn Nyfed	2
Perfformiad y Gronfa	3
Eiddo Tirol	3
Y Rheoleiddiwr Pensiynau - Côt Ymarfer Cyffredinol	4
Gweinyddu'r Gronfa	4
Cyflwyniad	4
Menter Twyll Genedlaethol	4
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014	5
Buddion Partneriaid sy'n Cyd-fyw	5
Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr	6
Tabl Cyfraniadau Aelodau o 1 Ebrill 2025	6
Rhwymedi McCloud	7
Rheol 85	8
Gwerthuso Swyddi a Statws Unffurf	8
Diwygio Treth	8
Dyddiadau Talu Pensiynwr	9
Dangosfwrdd Pensiynau	9
Fy Mhensiwn Ar-lein	10
Beth fydd Fy Mhensiwn Ar-lein yn caniatáu imi wneud?	10
Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein?	10
Cysylltu â'r Gronfa	11
Ymholiadau ynghylch Aelodau a Buddion	11

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynllun pensiwn buddion diffiniedig yw ef. Nid yw perfformiad buddsoddiadau yn effeithio ar y pensiwn. Mae'n darparu incwm diogel a gwarantedig i aelodau bob blwyddyn ar ôl iddynt roi'r gorau i weithio.

Mae tua **55,000** o bobl yn aelodau o'r Gronfa gan gynnwys aelodau gweithredol, pensiynwyr ac aelodau gohiriedig ac mae dros **50** o gyflogwyr yn rhan o'r Gronfa.

Mae gwefan gynhwysfawr y Gronfa yn rhoi rhagor o wybodaeth hanfodol i aelodau a chyflogwyr: www.cronfabensiwndyfed.org.uk

Buddsoddiadau'r Gronfa

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gronfa wedi parhau i gyllido'i hymrwymadau i seilwaith a chredyd preifat. Mae'r tabl isod yn rhoi diweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud.

Dosbarth Asedau	Rheolwr y Gronfa	Ymrwymiad £m	Buddsoddiad hyd yn hyn £m	% yr Ymrwymiad a Fuddsoddwyd
Asedau amgen	BlackRock SAIF	150.0	150.0	100.0%
Seilwaith	GCM Grosvenor	100.0	49.7	49.7%
Seilwaith	Capital Dynamics	10.0	3.7	37.0%
Credyd Preifat	Russell Investments	150.0	65.1	43.4%

Bydd y Gronfa yn parhau i wneud cynnydd wrth fuddsoddi ei hymrwymiad llawn a fydd yn cyflawni arallgyfeirio mathau o asedau a hefyd yn dod â'i buddsoddiadau yn unol â'i Dyraniad Asedau Strategol. Mae tua 57% o'r buddsoddiadau hyn yn y DU a byddant yn helpu i ysgogi twf economaidd sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth y DU.

Buddsoddiadau Adnewyddadwy yn Nyfed

Mae'r tabl uchod yn dangos bod y Gronfa bellach wedi buddsoddi'n llawn ei hymrwymiad o £150m i Gronfa Incwm Amgen Strategol BlackRock (SAIF).

Mae gan SAIF £1.7bn mewn cyfalaf ymrwymedig ac mae dros 80% o'r buddsoddiadau yn cael eu dal yn y DU. Mae dros 140 o fuddsoddiadau yn cefnogi economi'r DU ac mae 23% o'r asedau mewn ynni adnewyddadwy.

Mae dwy enghraifft o fuddsoddiadau adnewyddadwy yn ardal ddaearyddol Dyfed, y ddau ohonynt yn Sir Benfro. Mae'r buddsoddiadau mewn cynhyrchu ynni solar ac maent yn Hwlfordd a Yrbeston. Y capasiti cynhyrchu pŵer yw 12MW a 6MW yn y drefn honno. Yn ogystal â buddsoddi'n lleol, mae gan SAIF bum buddsoddiad adnewyddadwy arall ledled Cymru sy'n helpu i roi hwb i economi Cymru a diwallu'r galw am ynni adnewyddadwy.

Perfformiad y Gronfa

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad un, tair, pump a deng mlynedd yn erbyn y meincnod hyd at 31 Rhagfyr 2024:

Cyfnodau hyd at 31/12/24	Adenillion (%)	Meincnod (%)	Gor/Tanberfformio (%)
1 flwyddyn	10.44	11.63	(1.19)
3 blynedd*	3.31	3.91	(0.60)
5 mlynedd*	5.76	6.00	(0.24)
10 mlynedd*	7.71	7.71	0.00

*Ffurflenni Blynnyddol

Perfformiodd y Gronfa'n gryf yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni adenillion o 10.44%, ond roedd yn tanberfformio ei meincnod sydd wedi effeithio ar berfformiad tair a phum mlynedd. Prif sbardun y tanberfformiad oedd Cronfa Twf Byd-eang PPC, daliad mwyaf y Gronfa (sy'n cynrychioli ychydig o dan 33% o asedau), lle'r oedd tanberfformiad mwy na 6% dros y flwyddyn diwethaf.

Gwnaeth y Gronfa fodloni ei meincnod dros y cyfnod o ddeng mlynedd. Mae adenillion blynnyddol dros y cyfnod hwn o 7.71% wedi helpu'r Gronfa i gyflawni sefyllfa ariannu gref cyn prisio actiwaraid 2025.

Eiddo Tirol

Schroders and Partners Group yw rheolwyr buddsoddi Eiddo Tirol presennol y Gronfa. Yn ystod y flwyddyn, penododd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) Schroders i reoli Buddsoddiadau Eiddo Tirol Craidd a Lleol / Effaith y DU. Sefydlodd PPC gynnig buddsoddi Eiddo Tirol wedi'i adeiladu o amgylch y pileri canlynol:

- Eiddo Tirol Craidd y DU, i gymryd buddsoddiadau presennol mewn cronfeydd ar y cyd a'u trosglwyddo, dros amser, i bortffolio buddsoddi mewn eiddo uniongyrchol penagored.
- Eiddo Tirol Lleol / Effaith i ddatblygu rhaglen fuddsoddi sy'n defnyddio buddsoddiadau mewn cronfeydd a buddsoddiadau mewn asedau uniongyrchol mewn strategaethau Effaith y DU, gydag o leiaf 50% o asedau wedi'u lleoli yng Nghymru.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, bydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn ystyried faint mae'r Gronfa yn ei ddyrannu i'r ddau biler hwn.

Y Rheoleiddiwr Pensiynau - Côt Ymarfer Cyffredinol

Yn ystod 2024 cyhoeddodd y Rheoleiddiwr Pensiynau gôd ymarfer newydd ar gyfer cynlluniau pensiwn. Mae'r Côt Ymarfer Cyffredinol newydd yn cymryd lle Côt Ymarfer 14 ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ac cyfuno deg côd blaenorol y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn un.

Mae'r côd yn nodi 'un set o ddisgwyliadau clir, cyson ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau' i roi arweiniad i gyrff llywodraethu megis pwyllgorau pensiwn a byrddau pensiwn.

Mae ymchwil y Rheoleiddiwr Pensiynau ar lywodraethu a gweinyddu yn dangos bod gan y CPLIL safonau uchel o lywodraeth ar waith eisoes. Mae'r côd newydd yn rhoi cyfle i gronfeydd adolygu eu harferion gweithio presennol a sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau'r côd newydd. Mae nifer o bolisiâu newydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiwn ym mis Mawrth 2025 gyda meysydd pellach yn cael eu datblygu dros y flwyddyn i ddod. Ar ôl eu cymeradwyo a'u cyfieithu, cyhoeddir yr holl bolisiâu ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.

Gweinyddu'r Gronfa

Cyflwyniad

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur unwaith eto wrth i ni barhau i addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn ymateb i'r heriau a wyneb. Roedd hyn yn ychwanegol i fod Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i weithredu fel yr awdurdod arweiniol wrth weithio mewn partneriaeth â chyd-gronfeydd pensiwn yng Nghymru. Mae Tîm Gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i lywio a goresgyn materion cymhleth sy'n deillio o amddiffyniadau McCloud. Mae Cronfa Bensiwn Dyfed hefyd yn edrych tua'r dyfodol ac yn cynllunio ar gyfer newidiadau eraill ar y gorwel fel y Dangosfwrdd Pensiynau.

Menter Twyll Genedlaethol

Mae'r Gronfa yn dal i fod yn rhan o'r fenter genedlaethol yn erbyn twyll, a drefnir gan y Comisiwn Archwilio, lle mae'r data a ddarperir yn cynnwys manylion Pensiwn Galwedigaethol a manylion y Gyflogres. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chymharu â data cyrff cyhoeddus eraill, sy'n helpu i sicrhau:

- bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arian cyhoeddus
- Ni thelir pensiwn i berson sydd wedi marw, a
- sicrhau bod incwm Pensiwn Galwedigaethol yn cael ei ddatgan gan hawlwy'r Budd-dal Tai

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014

Bydd aelodau yn gyfarwydd â'r Cynllun Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi eu Hailbrizio (CARE) a gafodd ei gyflwyno o 1 Ebrill 2014 ymlaen.

Dengys y tabl isod brif ddarpariaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 ar gyfer yr aelodau O 1 Ebrill 2014 ymlaen

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014
Sail y Pensiwn	Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi eu Hailbrizio (CARE)
Cyfradd gronni	1/49 ^{fed}
Cyfradd Ailbrizio	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)
Oedran Pensiwn Arferol	Yn cyfateb i Oedran Derbyn Pensiwn gan y Wladwriaeth (Isafswm Oed 65)
Hyblygrwydd o ran Cyfraniadau	Gall aelodau ddewis talu cyfraniadau o 50% i dderbyn 50% o'r buddion pensiwn
Diffiniad Tâl Pensiynadwy	Wedi ei seilio ar yr union dâl pensiynadwy, ac i gynnwys goramser nad yw'n gytundebol ac oriau ychwanegol yn achos staff rhan amser
Cyfnod Breinio:	Mae'r cyfnod breinio wedi cynyddu o 3 mis i 2 flynedd

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Cronfa Bensiwn Dyfed sydd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r holl newidiadau rheoleiddiol ynghyd â thafleini ffeithiau a nodiadau cyfarwyddo diwygiedig.

Buddion Partneriaid sy'n Cyd-fyw

O 1 Ebrill 2008 ymlaen, mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol nid yn unig yn rhoi pensiwn i Briod neu i Bartner Sifil, ond hefyd i bartner enwebedig sy'n cyd-fyw. Pennir amodau penodol gan Reoliad fel a ganlyn:

- Gall unigolyn A briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda B
- Mae unigolion A a B yn byw gyda'i gilydd fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil
- Nid yw A na B yn byw gyda thrydydd person fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil, a
- Naill ai mae B yn ddibynnol yn ariannol ar A neu mae A a B yn dibynnu ar ei gilydd

Mae rheolau'r Cynllun yn nodi y bydd pensiwn goroeswyr yn daladwy'n awtomatig i bartneriaid sy'n cyd-fyw heb fod angen i'r aelodau o'r cynllun fod wedi cwblhau ffurflen yn eu henwebu nhw i gael pensiwn goroeswr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a meini prawf cymhwyso drwy un ai gysylltu â'r adain bensiynau neu drwy'r wefan.

Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 wedi diwygio'r dull o asesu eich cyfradd gyfrannu o dâl pensiynadwy 'cyfwerth ag amser llawn' i'ch 'tâl pensiynadwy **gwirioneddol**'. Mae cyfraniadau pensiwn hefyd yn daladwy ar oramser. Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw pennu cyfradd enillion a chyfraniadau'r aelodau, ynghyd â rhoi gwybod i'r Gronfa am hyn. Lle bo gan aelod fwy nag un swydd gyda Chyflogwr, bydd angen asesiad ar wahân ar gyfer pob swydd. Mae'r tabl yn nodi'r bandiau enillion a'r cyfraddau cyfrannu sy'n berthnasol ar gyfer 2025-2026.

Tabl Cyfraniadau Aelodau o 1 Ebrill 2025

Tabl Cyfraniadau ar gyfer 2025/26			
Band	Cyflog Pensiynadwy Gwirioneddol ar gyfer swydd	Y Gyfradd Gyfrannu ar gyfer y Swydd honno	
		Prif Adran	Adran 50 / 50
1	Hyd at £17,800	5.5%	2.75%
2	£17,801 i £28,000	5.8%	2.9%
3	£28,001 i £45,600	6.5%	3.25%
4	£45,601 i £57,700	6.8%	3.4%
5	£57,701 i £81,000	8.5%	4.25%
6	£81,001 i £114,800	9.9%	4.95%
7	£114,801 i £135,300	10.5%	5.25%
8	£135,301 i £203,000	11.4%	5.7%
9	£203,001 neu fwy	12.5%	6.25%

Rhwymedi McCloud

Pan newidiodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ei ffordd o weithio o gyflog terfynol i gyfartaledd gyrfa yn 2014, ychwanegodd y cynllun amddiffyniad i aelodau oedd yn agosáu at ymddeol o'r enw 'tanategu'. Nod y tanategu hwn oedd sicrhau y byddai'r buddion yr oedd yr aelodau hynny wedi'u cronni hyd at ddyddiad y newid yn cadw o leiaf yr un gwerth. Gwnaeth cynlluniau pensiwn eraill y sector cyhoeddus yr un peth.

Fodd bynnag, canfu'r Llys Apêl, yn achos Cynlluniau Pensiwn Beirniaid a Diffoddwyr Tân fod yr amddiffyniad yn wahaniaethol oherwydd nad oedd y tanategu yn berthnasol i aelodau iau. Gelwir hyn yn ddyfarniad McCloud yn aml.

O ganlyniad, mae pob cynllun pensiwn sector cyhoeddus, gan gynnwys y CPLIL, wedi gwneud newidiadau i gael gwared ar y gwahaniaethu hwn ar sail oedran. Daeth newidiadau rheolau McCloud i rym ar 1 Hydref 2023 yn y CPLIL. Nawr mae'r tanategu yn berthnasol i bob aelod sy'n gymwys amdano, beth bynnag ei oedran.

Rydych yn gymwys ar gyfer y newid hwn os:

- oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i mewn i'r CPLIL neu gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall cyn 31 Mawrth 2012;
- oeddech hefyd yn talu cyfraniadau pensiwn i mewn i'r CPLIL rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022; ac os
- ydych wedi bod yn aelod o CPLIL neu gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall heb fwch parhaus o fwy na 5 mlynedd.
- Bydd y newid rheol, a elwir yn rhwymedi McCloud, yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022.

Os ydych yn gymwys

Byddwn yn gweithio allan eich pensiwn yn unol â rheolau McCloud ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn derbyn y swm uwch o bensiwn yn seiliedig ar ba bynnag set o reolau sy'n gweithio'n well i chi.

Os ydych eisoed yn derbyn eich pensiwn, byddwn yn ei gynyddu os oes angen ac yn ychwanegu taliad am unrhyw bensiwn blaenorol y gwnaethoch ei golli.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Byddwn yn cysylltu â chi. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol o'r canlynol:

- Mae yna lawer o gofnodion pensiwn i fynd drwyddynt, felly bydd y broses hon yn cymryd peth amser.
- Mae'r tanategu yn annhebygol o effeithio ar werth y pensiwn i lawer ohonoch chi, ac mae'n debyg y bydd unrhyw gynnydd yn fach.

Darllenwch fwy am rhwymedi McCloud yma:

Taflen ffeithiau rhwymedi McCloud:

<https://www.dyfedpensionfund.org.uk/media/tmh1e1l/ media 2149 the-mccloud-judgment-and-your-lgps-pension.pdf>

Gwefan CPLIL cenedlaethol -<https://www.lgpsmember.org/mccloud-remedy/>

Rheol 85

Mae Rheol 85 yn diogelu rhywfaint neu'r cyfan o'ch buddiannau rhag y gostyngiad arferol mewn taliadau cynnar. I fod â diogelwch Rheol 85, mae'n rhaid eich bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 30 Medi 2006. Mae Rheol 85 yn fodlon os yw eich oedran ar y dyddiad pan fyddwch yn tynnu eich pensiwn ynghyd â'ch aelodaeth o'r Cynllun (mewn blynedd cyfan) yn dod i gyfanswm o 85 mlynedd neu fwy.

Os oes gennych ddiogelwch Rheol 85, bydd hyn yn dal yn berthnasol o Ebrill 2014 ymlaen. Yr unig achlysur lle nad yw'r diogelwch hwn yn berthnasol yn awtomatig yw os ydych yn dewis tynnu eich pensiwn yn wirfoddol ar neu **ar ôl 55 oed a chyn 60 oed heb** ganiatâd eich cyflogwr.

I gael dealltwriaeth fanylach o'ch sefyllfa bersonol, dylech fewngofnodi i 'Fy Mhensiwn Ar-lein' neu gysylltu â'r adain bensiynau yn uniongyrchol.

Gwerthuso Swyddi a Statws Unffurf

Lle bo gostyngiad mewn cyflog yn digwydd o ganlyniad i ymarferion gwerthuso swyddi neu statws unffurf, gall aelod o'r cynllun ddewis defnyddio cyfartaledd blyneddol y tair blynedd olynol orau o gyflog hyd at 31 Mawrth yn ystod y 13 blynedd olaf o gyflogaeth, at ddibenion cyflog terfynol. Os yw aelodau'r Cynllun am wneud y dewis hwn, mae'n rhaid iddynt benderfynu ar hynny o leiaf fis cyn y dyddiad y daw eu haelodaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i ben. Mae ffeithlen 'Gwerthuso Swyddi a'ch Buddion Pensiwn' ar gael ar y wefan.

Diwygio Treth

Yng Nghyllideb Mawrth 2023 cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r Lwfans Oes ar gyfer pensiynau treth freintiedig yn cael ei waredu'n llwyr o 2024/25. Dyma gyfanswm gwerth yr holl fuddion pensiwn y gallwch eu crynhoi heb fod treth yn cael ei chodi arnoch am grynhoi gormod o fuddion. Dylid nodi mai'r mwyafswm arian parod di-dreth gallwch ei gael yw £268,275, ac ar adeg eich ymddeoliad mae'n ofynnol ichi ddatgan yr holl fuddion pensiwn nad ydynt yn rhai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sydd yn cael eu talu ichi neu sydd ar fin cael eu talu, fel y gellir asesu eich mwyafswm Lwfans Oes arian parod di-dreth. Mae rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnoch ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cofiwch na all staff yr adain bensiynau roi cyngor ariannol na chynghor personol ynghylch treth.

O fis Ebrill 2023 fod y terfyn Lwfans Blynnyddol wedi cynyddu i £60,000 ac mae'r terfyn hwn yn parhau ar gyfer 2025/26. I gyfrif gwerth unrhyw gynnydd blynnyddol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae angen ichi ganfod y gwahaniaeth yng nghyfanswm gwerth unrhyw fuddion a grynhowyd rhwng dau 'gyfnod mewnbwn pensiwn', sef rhwng mis Ebrill a mis Mawrth fel arfer. Gwneir hyn drwy luosi gwerth y cynnydd yn y pensiwn ag 16 ac ychwanegu'r cynnydd yng ngwerth unrhyw gyfandaliad a'r gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Bydd y Datganiad Blynnyddol o'ch Buddion ar gyfer 2025 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch effaith y lwfans blynnyddol ar y pensiwn y byddwch yn ei gronni yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Wedyn mae'n rhaid ychwanegu canlyniad y cyfrifiad hwn at unrhyw gynnydd mewn hawliau pensiwn a allai ddeillio o unrhyw drefniant pensiwn arall sydd gan unigolyn, er mwyn gweld a yw'r terfyn blynnyddol wedi'i groesi.

Dyddiadau Talu Pensiynwr

Eleni, cafwyd cynnydd o 1.7% mewn pensiynau o 7 Ebrill 2025 ymlaen, sy'n cynrychioli'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros y cyfnod o 12 mis hyd at 30 Medi 2024. Fel rheol mae'r cynnydd mewn pensiynau'n berthnasol i bensiynwyr sy'n 55 oed neu'n hŷn, neu sydd wedi ymddeol ar unrhyw oed ar sail afiechyd neu sy'n derbyn pensiwn eu priod neu bensiwn plentyn. Bydd pensiynwr a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn ariannol yn derbyn y gyfran briodol o'r cynnydd.

Ebrill 2025	30/04/2025	Hydref 2025	31/10/2025
Mai 2025	30/05/2025	Tachwedd 2025	28/11/2025
Mehefin 2025	30/06/2025	Rhagfyr 2025	24/12/2025
Gorffennaf 2025	31/07/2025	Ionawr 2026	30/01/2026
Awst 2025	29/08/2025	Chwefror 2026	27/02/2026
Medi 2025	30/09/2025	Mawrth 2026	31/03/2026

Dangosfwrdd Pensiynau

Mae'r Dangosfwrdd Pensiynau yn fenter newydd gan y Llywodraeth a fydd yn eich galluogi i weld eich holl bensiynau ar-lein, yn ddiogel a mewn un lle. Bydd yn rhoi gwybodaeth glir a syml am eich cynilion pensiwn lluosog, gan gynnwys eich Pensiwn y Wladwriaeth. Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gweithio ar gysoni data i sicrhau ein bod yn barod i gysylltu â'r Dangosfwrdd erbyn y dyddiad cau presennol a roddwyd i gronfeydd CPLIL, sef 31 Hydref 2025. Rhaid i holl ddarparwyr pensiwn y DU gysylltu â'r Dangosfwrdd newydd erbyn 31 Hydref 2026. Mae'r dangosfwrdd yn dibynnu ar baru data personol i gyrchu y wybodaeth bensiwn gywir. Mae manylion cyswllt cywir, fel cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn symudol yn bwysig ar gyfer dilysu ychwanegol a sicrhau bod y data cywir yn cael ei baru â'r unigolyn cywir. Gallwch ddod o hyd i'ch holl fanylion sylfaenol ar Fy Mhensiwn Ar-lein, os gwelwch anghysondeb cysylltwch â ni a diweddarwch gwybodaeth. Gallwch ddarllen mwy am y Dangosfwrdd Pensiynau yma: www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk

Fy Mhensiwn Ar-lein

Beth fydd Fy Mhensiwn Ar-lein yn caniatáu imi wneud?

P'un a ydych yn aelod gweithredol o'r Cynllun, yn aelod gohiriedig neu'n bensiwnwr, gallwch weld eich manylion sylfaenol a'u diweddaru, cyrchu ffurflenni perthnasol a derbyn pob cyhoeddiad yn ddiymdroi, gan gynnwys y Datganiad Blynnyddol o'ch Buddion, newyddlenni a ffeithlenni. Os ydych yn aelod gweithredol, byddwch yn gallu cyfrifo'ch buddion ar adeg sy'n gyfleus ichi er mwyn cynllunio'ch ymddeoliad yn ymarferol.

Os ydych yn bensiwnwr, byddwch yn gallu gweld manylion eich pensiwn, gwneud newidiadau o ran manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu eich cyfeiriad, gweld eich cofnod taliadau a'ch côd treth, eich dyddiadau talu, slipiau talu, datganiadau P60 a'ch datganiadau ynghylch y cynnydd yn y pensiwn

Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein?

Ni allai cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein fod yn haws, yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw clicio [yma](#) i ofyn am e-bost actifadu. Dewch o hyd i'n fideo newydd sy'n dangos sut i greu cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

Cysylltu â'r Gronfa

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Chris Moore

cmoore@sirgar.gov.uk

Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol

Randal Hemingway

RHemingway@sirgar.gov.uk

Buddsoddiadau Pensiwn

Anthony Parnell

Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

AParnell@sirgar.gov.uk

Martin Owens

Swyddog Buddsoddiadau Pensiwn

MSOwens@sirgar.gov.uk

Jason Williams

Cyfrifydd Cynorthwyol

JasWilliams@sirgar.gov.uk

Tina Leigh

Technegydd Cyfrifyddu

TLeigh@sirgar.gov.uk

Gweinyddu Pensiynau

Kevin Gerard

Rheolwr Pensiynau

KGerard@sirgar.gov.uk

Martin Morgan

Dirprwy Rheolwr Pensiynau

MMorgan@sirgar.gov.uk

Jessica Turnbull-Guy

Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddi

JTurnbull-Guy@sirgar.gov.uk

neu fel arall - pensiynau@sirgar.gov.uk

Ymholiadau ynghylch Aelodau a Buddion

Cyfenw A – G 01267 224909

Cyfenw H – O 01267 224155

Cyfenw P – Z 01267 224054